# Gwasanaeth i Blant Anabl Rhondda Cynon Taf


Mae'r Gwasanaeth i Blant Anabl yn cynorthwyo plant a phobl ifainc sydd ag anabledd corfforol, anabledd dysgu neu gyflwr sy'n cyfyngu ar ffordd o fyw'r unigolyn.

Dyma'r diffiniad o 'anabledd' sy'n cael ei gydnabod gan y Gwasanaeth ac sydd i'w weld yn Neddf Cydraddoldeb 2010:

***Nam corfforol neu feddyliol sy'n cael effaith 'sylweddol' a 'hirdymor' ar eich gallu i gyflawni gweithgareddau beunyddiol.***

Mae'r model cymdeithasol o ran anabledd yn nodi bod anabledd yn cael ei achosi gan strwythur y gymdeithas, yn hytrach na'r nam sydd gan rywun, neu'r ffordd maen nhw'n wahanol. Mae'n ystyried ffyrdd o gael gwared ar rwystrau sy'n atal plant a phobl ifainc anabl rhag gwneud rhai dewisiadau mewn bywyd.

## Sut rydyn ni'n penderfynu a yw cymorth arbenigol yn briodol?



Bydd asesiad yn ystyried natur ac effaith sylweddol y nam, y rhwystrau sy'n rhaid eu goresgyn, ac a oes modd cyflawni deilliannau personol y plentyn â chymorth rhieni, y teulu ehangach a'r gymuned.

Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, yn rhoi pwyslais ar gryfderau, capasiti a gallu (beth alla i ei wneud / sut alla i gael help), i gynorthwyo pobl i oresgyn rhwystrau a chyflawni deilliannau personol.

Bydd yr angen am ymyrraeth arbenigol gan y Gwasanaeth i Blant Anabl yn cael ei ddiwallu os yw'r Awdurdod Lleol yn cyd-baratoi Cynllun Gofal a Chymorth neu Gynllun Cymorth ar gyfer rhieni / y sawl sy'n rhoi gofal **ac** mae hyn yn angenrheidiol oherwydd effaith anabledd neu anghenion gofal cymhleth y plentyn sy'n gofyn am gymorth gan nifer o wasanaethau gwahanol.

## Rheoliadau Gofal a Chymorth (Cymhwysedd) (Cymru) 2015 - plant

Mae'r angen yn deillio o afiechyd corfforol neu feddyliol y plentyn, ei oedran, ei anabledd, ei ddibyniaeth ar alcohol neu gyffuriau neu amgylchiadau tebyg eraill, neu os na fydd yr angen yn cael ei ddiwallu, mae hyn yn debygol o gael effaith andwyol ar ddatblygiad y plentyn.

O ganlyniad, does dim modd i'r plentyn, rhieni'r plentyn nac unrhyw un arall sy'n gofalu am y plentyn ddiwallu'r angen hwnnw, naill ai ar eu pennau eu hunain na chyda chymorth eraill, na chymorth gan wasanaethau yn y gymuned.

- Gallu i gynnal arferion hunanofal neu ddomestig
- Gallu i gyfathrebu
- Amddiffyn rhag camdriniaeth neu esgeulustod
- Cymryd rhan ym myd gwaith, addysg, dysgu neu mewn gweithgareddau hamdden
- Cynnal a chadw neu ddatblygu perthynas yn y teulu neu berthynas arwyddocaol arall
- Datblygu a chynnal perthynas gymdeithasol ac ymwneud â'r gymuned
- Cyflawni nodau datblygiadol

O ganlyniad, maen nhw'n annhebygol o gyflawni un neu ragor o ddeilliannau personol oni bai fod yr awdurdod lleol yn darparu neu'n trefnu gofal a chymorth.

## Beth i'w ddisgwyl



Swyddogaeth y Gwasanaeth i Blant Anabl yw darparu **ymyrraeth amserol sy'n canolbwyntio ar ddeilliannau** sy'n adeiladu gwytnwch teuluol a chymunedol i alluogi plant anabl i gyflawni'r hyn sy'n bwysig iddyn nhw.

Rydyn ni'n darparu ymyrraeth gynnar ac ataliol i leihau risg a galluogi'r plentyn gyflawni ei ddeilliannau personol. Mae modd i hyn olygu cymorth i reoli effaith nam plentyn ar ei fywyd neu wneud y cartref neu'r gymuned yn fwy hygyrch trwy ddarparu gwybodaeth a chyngor i'r plentyn, ei atgyfeirio at asiantaethau neu garfanau eraill, cynnig cymorth ymarferol, neu gymorth dwysach â therfyn amser yn unol â chanlyniadau'r asesiad.

Os oes angen cynllun Gofal a Chymorth ar y plentyn, bydd hwn yn cael ei gwblhau gyda'r plentyn a'r teulu, gan ystyried yr holl gryfderau ac adnoddau sydd gan y teulu yn barod. Bydd yn cael ei adolygu'n rheolaidd a bydd yn newid wrth i anghenion

newydd godi, neu efallai na fydd ei angen mwyach os yw'r deilliannau'n cael eu cyflawni.

**Sut i gael mynediad at wasanaethau gofal a chymorth:**

**Bydd angen darparu gwasanaeth eiriolaeth** neu gymorth os oes angen help ar bobl ar unrhyw adeg yn ystod y broses

**Anghenion brys a Diogelu**
Rhaid i'r asesiad beidio ag achosi oedi o ran diwallu anghenion brys.
Os oes angen amddiffyn pobl yna defnyddiwch weithdrefnau diogelu.

*Rydw i, neu mae rhywun rydw i'n ei adnabod, angen gofal a chymorth*

**Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth**
Cyfeirio i wasanaethau ataliol **neu** gychwyn asesiad

**Asesu**
Oes gyda'r person anghenion gofal a chymorth?

**Asesu**
Nodi a oes modd diwallu'r holl anghenion trwy gyfeirio'r unigolyn i wasanaethau ataliol NEU ystyried a oes angen rhoi cynllun gofal a chymorth ar waith.

Os oes modd diwallu'r angen trwy gyfeirio, fydd yr angen hwnnw **DDIM yn un cymwys.**

Os dim ond trwy Gynllun Gofal a Chymorth y mae modd diwallu'r anghenion sydd wedi'u nodi, bydd anghenion yr unigolyn felly **yn rhai cymwys**

**Os nad yw'r anghenion yn rhai cymwys** rhaid trefnu cyfarfod trwy'r gwasanaethau ataliol

**Gwasanaethau Lles Ataliol**
Mae amrywiaeth o wasanaethau a chymorth ar gael yn y gymuned

**Os yw'r anghenion yn ei wneud yn rhai cymwys** rhaid datblygu Cynllun Gofal a Chymorth i ddiwallu'r anghenion hynny

**Cynllun Gofal a Chymorth**
Cyflwyno gofal a chymorth i ddiwallu anghenion sydd wedi'u nodi. Bydd y cynllun yn cynnwys anghenion eraill sy'n cael eu diwallu gan deulu neu'r gymuned ehangach, os yw'n berthnasol.

**Adolygu / ailasesu** Bydd y Cynllun Gofal a Chymorth yn cael ei adolygu ar adeg y cytunwyd arni. Bydd asesiad yn cael ei gynnal eto os bydd amgylchiadau'n newid. Daw cynllunio gofal a chymorth i ben pan fydd y deilliannau wedi'u cwblhau.